

Leisa Mererid



Enw: Leisa Mererid

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Ar fferm yn Betws Gwerfyl Goch

Ble aethoch chi i'r ysgol? Ysgol Gynradd Dinmael
ac Ysgol Uwchradd Y Bala

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Fod pawb yn gorfod edrych yr un fath

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny? Actor

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn? *Llyfr Mawr Y Plant* – hanes Sion Blewyn Coch a Sian Slei Bach ac yna *Dirgelwch yr Ogof* gan T.L.I.Jones

Beth yw eich diddordebau? Teithio, nofio gwyllt, dawnsio-gwrando ar gerddoriaeth

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

Bod allan yn myd natur

Beth sy'n eich gwylltio chi? Anghyfiawnder

Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?

Ar ol cael plant – a hefyd gan fod yna brinder o adnoddau/llyfrau lles yn y Gymraeg.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?

Wrth ymarfer loga a gweithio efo plant, o fyd natur

Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?

Iechyd a lles, byd natur a gwarchod ei'n planed

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?

Ewch amdani!

Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?

Cael y rhyddid i greu rhwybeth fydd, gobeithio, yn cael effaith bositif/o help i blant Cymru. Y peth gwaethaf ydi gor-feddwl!



Cwestiynau Cyflym:

Hoff lyfr o'ch plentyndod?

Y Lleidr Hotzenplots

Hoff gymeriad o lyfr? Pipi Hosan Hir

Hoff le? Traethau Pen Llŷn

Hoff fwyd? Bwyd môr

Hoff ffilm/rhaglen deledu?

Fedra'i ddim dewis! Ma na gymaint!!!

Hoff air? Sisial

Superpower o ddewis? Gwasgaru

llwch hud o heddwch dros y byd

Hoff rhwydwaith cyfryngau

cymdeithasol? Prin yn defnyddio rhain a dweud y gwir!

Beth sy'n gwneud i chi wenu?

Adar yn canu, nofio yn y mor fel mae'r haul yn gwawrio, gwylio fy nghi bach yn chwarae, gwrando ar fy mhiant yn chwerthin

Swydd tase chi dim yn awdur?

Swydd ddelfrydol? Gweithio mewn lloches i anifeiliaid

Top tip i ddarpar awduron: Peidiwch gorfeddwl ac ewch amdani!